**Datganiad o Resymau – Gorchymyn Traffig Arbrofol - Trên Tir ym Mhorth-cawl**

Mae cais wedi dod i law yn y Tîm Rheoli Cyrchfannau a Gweithrediadau Arfordirol am ddiwygio'r cyfyngiadau traffig presennol ym Mhorth-cawl er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu Trên Tir y bernir y bydd yn cefnogi'r economi lleol a'r busnes twristiaeth.

Mae angen gorchymyn traffig arbrofol i alluogi'r trên tir arfaethedig i stopio a chodi teithwyr mewn gwahanol fannau yn Nhref Porth-cawl.

Bydd y gorchymyn arbrofol yn caniatáu ymgynghori â'r cyhoedd o fewn 6 mis cyntaf y gorchymyn ac yn caniatáu i'r cynnig gael ei werthuso yn ystod y cyfnod arbrofol i fonitro'r effaith y gallai'r trên tir ei chael o ran tagfeydd/diogelwch y briffordd.

Bydd y Cyngor yn ystyried maes o law a ddylai darpariaethau'r Gorchymyn Arbrofol barhau mewn grym am gyfnod amhenodol.

Mae'r mannau aros dynodedig arfaethedig ar gyfer trenau tir sydd i'w datblygu wedi'u cynnwys ar y lluniadau a atodwyd: **BX9 Diw 1, CB12 Diw 1, CC11 Diw 1 a CC12 Diw 1.**

Mae'r gorchymyn traffig arbrofol i'w roi ar waith yn unol ag Adran 9 a 10 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 gan ei bod yn ymddangos i'r Awdurdod ei bod yn hwylus ei wneud am y rhesymau a nodir yn Adran 1(a), ac (c) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a nodir fel a ganlyn:

(a) osgoi perygl i bersonau neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd arall neu atal y tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi (Adran 1(a))

(c) hwyluso tramwy unrhyw ddosbarth o draffig (gan gynnwys cerddwyr) ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall (Adran 1(c).

Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn ai peidio, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r materion a nodir yn adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae adran 122(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor arfer y swyddogaethau a roddir iddo gan Ddeddf 1984 (i'r graddau y mae'n ymarferol gan roi sylw i'r materion a bennir yn adran 122(2)) er mwyn sicrhau bod traffig cerbydau a thraffig eraill (gan gynnwys cerddwyr) yn symud yn gyflym, yn gyfleus ac yn ddiogel a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd ac oddi arni.

Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn adran 122(2) yw:-

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i fangreoedd;

2. Yr effaith ar amwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu defnydd ffyrdd gan gerbydau masnachol trwm er mwyn diogelu neu wella amwynderau'r ardaloedd y mae'r ffyrdd yn rhedeg drwyddynt;

3. Y strategaeth ansawdd aer genedlaethol a baratowyd o dan adran 80 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;

4. Pwysigrwydd hwyluso tramwy cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra personau sy'n defnyddio neu'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;

5. Unrhyw faterion eraill y mae'n ymddangos i'r Cyngor eu bod yn berthnasol.

Ar ôl ystyried y ddyletswydd a osodir gan adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, mae'r cais wedi ei werthuso a bernir ei bod yn briodol cyflwyno'r gorchymyn traffig arbrofol.

Bwriedir cynnwys y cyfyngiadau hyn yng Ngorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio)(Gorfodi Sifil) 2013, yn unol â Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Rheoliadau Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996.

Nodir y cyfyngiadau ag arwyddion yn unol â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 a bydd y marciau ffordd hefyd yn cydymffurfio â gofynion y cyfarwyddiadau hynny.